# Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2024

## Cyfarwyddiadau Cofrestru, Maes Carafanau a Gwersylla

Dylid darllen y ddogfen hon yn ofalus cyn cyflwyno eich cais

Eisteddfod

***Gwneud Cais***

1. *Dylid cwblhau pob ffurflen cais ar lein*
2. *Taliad - Rhaid amgáu'r taliad llawn gyda'r cais ar-lein.*
3. *Os hoffech safle wrth ymyl ffrind/grŵp- dewiswch enw cyffredin a'i nodi ar y ffurflen o dan 'enw cyswllt cais grŵp'. Rhaid sicrhau bod pawb sydd eisiau bod yn ymyl ei gilydd yn defnyddio'r un enw yn y darn hwn e.e. bydd angen i bawb yn y grŵp nodi 'Mr Urdd' yn y blwch. Nis oes sicrwydd bydd eich safle yn agos i'ch ffrind/grŵp os yw'r enw'n wahanol.*
4. *Byddwch yn derbyn e-bost yn cydnabod derbyn eich cais a rhif cyfeirnod eich cais. Byddwch yn derbyn pecyn drwy e-bost, yn cynnwys eich rhif safle ar ddechrau mis Mai 2024.*
5. *3 noson yw'r isafswm o nosweithiau gellir archebu.*
6. *Rhaid cysylltu yn syth gyda Gethinpage@urdd.org os ydych am newid eich archeb. Ni fydd modd newid eich archeb wedi Mai 1af 2024, ac nid ad-dalir unrhyw gwahaniaeth mewn cost.*
7. *Os torrir un o'r Rheolau ac Amodau hyn gall yr Urdd ofyn i'r preswylwyr adael y safle yn ddirybudd ac ar unwaith. Os digwydd hyn nid ad-delir unrhyw dâl nac unrhyw ran ohono.*